# Rhaglen Diwygio Mynediad: Cyfarfod 7 y Grŵp Llywio

20 Mai 2020

Yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Simon Pickering (Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru – Pennaeth Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Jont Bulbeck | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Eifion Jones (BBNPA) | Cynrychioli y 3 o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a 5 AHNEau |
| Adrian Walls | Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru |
| Ben Sears | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

Cymorth technegol ac ysgrifenyddol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Helen Lewis | Llywodraeth Cymru – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Sarah Smith | Llywodraeth Cymru – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Joe Roberts | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jayne Carter | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| Prif benderfyniadau a materion yn codi | Perchennog |
|---|---|
| **Nodiadau a chamau yn codi o'r cyfarfod blaenorol**<br><br>1. Cytunwyd ar y cofnodion.<br>2. **Cam gweithredu 5 (27/02/20)**: Dylai LIC sicrhau bod rhywfaint o gyllid ar gael ar gyfer ymchwil i ymddygiad (yn amodol ar effaith covid19 ar y gyllideb). CNC i anfon cynigion ac amcangyfrif o'r gost ar gyfer y gwaith.<br><br>*Bydd CNC yn lle hyn yn cyflwyno eitem i'r agenda ar ymchwil i ymddygiad yn ystod y cyfarfod hwn.*<br><br>3. **Pwynt gweithredu 6 (27/02/20)**: Adolygiad cyfreithwyr LIC o ba adrannau o Ran 2 Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sydd wedi'u deddfu yng Nghymru sydd wedi gweld oedi oherwydd covid19. HL i edrych i mewn i hyn. | |

| | |
|---|---|
| *Cafodd hyn ei rannu gydag aelodau y GA ar 22 Mai.*<br><br>4. **Pwynt gweithredu 5 (20/04/20):** EJ i wneud ymholiadau i ddirprwy dros dro yr Awdurdod Parciau Cenedlaethol fod yn bresennol yn lle cynrychiolydd y GA sydd ddim ar gael ar hyn o bryd.<br><br>*Helen Pye (APC Eryri) yn dirprwyo os bydd angen.*<br><br>5. **Pwynt Gweithredu 9 (20/04/20):** LlC i gysylltu gydag Amaethyddiaeth dros daliadau Amaethyddol.<br><br>*Mae Digwygio Maes Rheoli Tir LlC yn cynnal prosiect ymchwil a modelu. Mae Adrannau Hawliau Tramwy Awdurdodau Lleol wedi eu gwahodd i rannu eu setiau data hawl dramwy gyhoeddus. Bydd SP yn trefnu diweddariad mewnol gan LlC unwaith y bydd sylwadau wedi dod i law ar y Papurau Cynnig Opsiynau. JB i gael ei wahodd i'r cyfarfod.*<br><br>6. **Pwynt Gweithredu 14 (20/04/20)**: Papurau Opsiynau Diwygio i gael eu hanfon at y Senedd a'r Fforymau Mynediad Lleol ar ddechrau Mai<br><br>*Anfonwyd y Papurau Opsiynau Diwygio wedi'u cyfieithu ar 21/05/20* | Simon |
| **Cod Mynediad i'r Awyr Agored**<br><br>7. Trafodwyd creu proses bosibl ar gyfer Cod Mynediad i'r Awyr Agored. Nodwyd yr ystyriaethau canlynol:<br>• Ymgynghori ar draws ffiniau<br>• Mae'n bosibl y bydd grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr angen ffurf gwahanol i'r Cod<br>• Bydd angen cyfathrebu wedi'i dargedu<br><br>8. CNC yn ystyried sut y bydd datblygu'r Cod yn cyd-fynd â'r broses ARAG a bydd yn bwydo yn ôl i gyfarfod nesaf y Grŵp Arbenigol. | Joe |
| **Gwybodaeth am Ymddygiad**<br><br>9. Rhoddodd CNC gyflwyniad ar sut y gellir defnyddio gwybodaeth am ymddygiad i helpu gyda diwygio deddfwriaethol.<br><br>10. Bu'r Grŵp Llywio yn ystyried a fyddai'n mwy buddiol i gynnal gwaith ymchwil am wybodaeth ar ymddygiad wrth ddatblygu y Cod Mynediad i'r Awyr Agored.<br><br>11. Cytunodd CNC i ddefnyddio eu harbenigwr gwybodaeth am ymddygiad eu hunain wrth i'r broses ARAG fynd rhagddi. | Joe |

| | |
|---|---|
| **Amserlen y Rhaglen**<br><br>12. Oherwydd Covid-19, mae cyfarfodydd gwreiddiol y Grŵp Arbenigol ym mis Gorffennaf bellach wedi'i symud i fis Medi. | |
| **Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>13. Bydd angen ystyried ymhellach sut i ddod o hyd i arbenigwr y System Gwybodaeth Ddaearyddol i helpu gyda'r wybodaeth dechnegol sydd ei hangen ar gyfer GA3.<br><br>14. Mae nifer o gwestiynau cyfreithiol wedi eu nodi yn dilyn y Papur Cynnig Opsiynau. Bydd CNC yn cwblhau, yn crynhoi ac yn rhannu'r rhain gyda LIC. | Ben<br><br><br><br>Jont |